OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 107 (Cy. 38)

# Y DRETH GYNGOR, CYMRU

## Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (Diwygio) (Cymru) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *7 Chwefror 2022* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *9 Chwefror 2022* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan baragraffau 1(1) a 5(2)(e) o Atodlen 4 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(**1**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**).

### Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (Diwygio) (Cymru) 2022.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2022.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(4) Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "gorchymyn atafaelu enillion" yr ystyr a roddir i "attachment of earnings order" gan reoliad 32 o Reoliadau 1992;

ystyr "Rheoliadau 1992" ("*the 1992 Regulations*") yw Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) 1992(**3**).

### Diwygio Rheoliadau 1992

**2.** Yn lle Atodlen 4 (didyniadau sydd i'w gwneud o dan orchymyn atafaelu enillion) i Reoliadau 1992, rhodder yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

(**1**) 1992 p. 14.

(**2**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol, o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi hynny i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**3**) O.S. 1992/613, a ddiwygiwyd gan O.S. 2007/582 (Cy. 54); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

*Rebecca Evans*
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

7 Chwefror 2022

YR ATODLEN

Rheoliad 2

"SCHEDULE 4

Deductions to be made under Attachment of Earnings Order

**TABLE A**

**DEDUCTIONS FROM WEEKLY EARNINGS**

| *(1)* | *(2)* |
|---|---|
| *Net Earnings* | *Deduction rate (percentage)* |
| Not exceeding £105 | 0 |
| Exceeding £105 but not exceeding £190 | 3 |
| Exceeding £190 but not exceeding £260 | 5 |
| Exceeding £260 but not exceeding £320 | 7 |
| Exceeding £320 but not exceeding £505 | 12 |
| Exceeding £505 but not exceeding £715 | 17 |
| Exceeding £715 | 17 in respect of the first £715, then 50 in respect of the remainder |

**TABLE B**

**DEDUCTIONS FROM MONTHLY EARNINGS**

| *(1)* | *(2)* |
|---|---|
| *Net Earnings* | *Deduction rate (percentage)* |
| Not exceeding £430 | 0 |
| Exceeding £430 but not exceeding £780 | 3 |
| Exceeding £780 but not exceeding £1,050 | 5 |
| Exceeding £1,050 but not exceeding £1,280 | 7 |
| Exceeding £1,280 but not exceeding £2,010 | 12 |
| Exceeding £2,010 but not exceeding £2,860 | 17 |
| Exceeding £2,860 | 17 in respect of the first £2,860, then 50 in respect of the remainder |

**TABLE C**

**DEDUCTIONS BASED ON DAILY EARNINGS**

| *(1)* | *(2)* |
|---|---|
| *Net Earnings* | *Deduction rate (percentage)* |
| Not exceeding £16 | 0 |

| *(1)* | *(2)* |
|---|---|
| *Net Earnings* | *Deduction rate (percentage)* |
| Exceeding £16 but not exceeding £28 | 3 |
| Exceeding £28 but not exceeding £38 | 5 |
| Exceeding £38 but not exceeding £47 | 7 |
| Exceeding £47 but not exceeding £74 | 12 |
| Exceeding £74 but not exceeding £102 | 17 |
| Exceeding £102 | 17 in respect of the first £102, then 50 in respect of the remainder" |

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn diwygio Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) 1992 ("Rheoliadau 1992").

Mae Atodlen 4 i Reoliadau 1992 yn pennu didyniadau sydd i'w gwneud o dan orchymyn atafaelu enillion, y gall awdurdod bilio (cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol) ei gyfeirio at gyflogwr person sydd wedi cael gorchymyn atebolrwydd gan lys ynadon o dan baragraff 3 o Atodlen 4 (gorchmynion atebolrwydd) i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

Mae'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn yn disodli Atodlen 4 i Reoliadau 1992, ac mae'n cynnwys didyniadau diwygiedig o enillion wythnosol, misol a dyddiol sy'n ymwneud â gorchmynion atafaelu enillion a wneir ar 1 Ebrill 2022 neu ar ôl hynny.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.